BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN
ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICES BOARD

DYDD MERCHER, 4 HYDREF 2017

COFNODION

Presennol	
Enw	**Sefydliad**
Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Llinos Medi	Cyngor Sir Ynys Môn
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Cyng. Dyfrig Siencyn	Cyngor Gwynedd
Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru
Sian Purcell	Medrwn Môn
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiheuriadau	
Emyr Williams	Parc Cenedlaethol Eryri
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Ffrancon Williams	Cartrefi Cymunedol Gwynedd – sector tai
Morag Olsen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn Mynychu	
Llio Johnson	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Elin Mirain Jones	Cyngor Gwynedd
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Justin Hanson	Cyfoaeth Naturiol Cymru
Elizabeth Woodcock	Myfyriwr PhD

1. Croeso

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau.

2. Cofnodion cyfarfod 20 Mehefin 2017

Cyflwynwyd y cofnodion a derbyniwyd hwy fel cofnod cywir o'r cyfarfod ar y 20 Mehefin.

3. Materion yn codi

3.1 Pum Diwrnod mewn ystafell:
Cafwyd diweddariad gan Ffion Johnstone o ran y gwaith yma. Mae ymdeimlad fod y gwaith yn fwy llwyddiannus yn y Gorllewin. Codwyd consyrn fod nifer fawr o gyfarfodydd a thrafodaethau yn hytrach na gweithredu a bod angen sicrhau bod y gwaith yma yn rhan 'r cynllun llesiant lleol. Mae llawer o amser a chapasiti yn cael ei golli i'r Bwrdd Rhan 9 Rhanbarthol pan mae angen gweithredu yn lleol a dylanwadu ar newidiadau yn lleol.

3.2 Grid Cenedlaethol – Gwynne Jones i wirio os oedd ymateb wedi ei dderbyn gan y Grid Cenedlaethol

4. Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - 'Llesiant yng Nghymru : cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory' a'r cyngor ynglŷn â pharatoi'r Cynllun Llesiant

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd ynghyd a phapur a oedd yn crynhoi'r argymhellion sydd yn yr adroddiad.

Eglurwyd bod 17 o argymhellion ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy Gymru. Mae'r rhan gyntaf yn son am sut mae'r Byrddau yn gweithredu ac yna'r ail ran yn son am yr Asesiadau Llesiant. Mae yn gofyn nifer o gwestiynau y bydd angen i'r Bwrdd eu hystyried dros y misoedd nesaf.

Cafwyd trafodaeth am yr adroddiad. Codwyd consyrn nad oedd y ddogfen yn glir am ddisgwyliadau tymor byr ac thymor hir y Comisiynydd. Roedd yr aelodau o'r farn bod gwaith y Bwrdd yn bwysig o ran gweithredu yn unol â disgwyliadau trigolion ac nid cael ei yrru gan agenda cenedlaethol.

Cytunwyd sefydlu gweithgor o aelodau i fynd trwy'r argymhellion er mwyn cytuno ar pa rai i'w derbyn a'i gweithredu yn lleol.

5. Trafodaeth ynglŷn â chydweithio i ychwanegu gwerth

Cyflwynwyd papur gan Elizabeth Woodcock ynglŷn â phwysigrwydd cydweithio llwyddiannus er mwyn sicrhau llwyddiant y Bwrdd.

Roedd y papur yn son am ddylanwadu cydweithio effeithiol ac yn gofyn i'r aelodau gysidro pa ddylanwad sydd ganddynt ar y cyd-weithio rhwng rheolwyr a'r swyddogion sydd yn gweithio i'w sefydliad.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â nifer o bwyntiau perthnasol megis:

- Pwysigrwydd staff o wahanol sefydliadau yn dod ymlaen a'i gilydd ac yn dangos parch
- Esiamplau o rhai cyrff ddim ond yn gweithio gyda chyrff penodol eraill
- Bwrdd yn gytûn bod cyd-weithio lleol da ond gellid gwella ac ehangu i bartneriaid / sefydliadau eraill
- Yn aml mae process neu bolisi yn rhwystr i gyd-weithio
- Mae cyfrifoldeb ar bawb i gynnal perthnasedd da

- Un o'r prif bethau sydd yn atal gwaith partneriaethol da yw pethau sydd wedi digwydd yn hanesyddol - anodd colli golwg ar hen hanes
- Dylai pawb fod gyda'r un amcan sef gwella bywydau pobl Gwynedd a Môn
- Mae diffyg dealltwriaeth o beth mae pob sefydliad yn ei wneud yn benodol i wella llesiant cymunedau Gwynedd a Môn
- Rôl cynghorwyr yn bwysig gan mai nhw sy'n siarad gyda phobl ar lawr gwlad

Oherwydd diffyg amser daethpwyd a'r drafodaeth i ben gyda chytundeb i ail ymweld â'r pwnc yn y misoedd nesaf. Diolchwyd i Elizabeth am ei gwaith.

6. Pennu Amcanion Llesiant y Bwrdd

Cyflwynwyd adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r gweithdai a drefnwyd dros yr haf. Bu 18 o weithdai i gyd gyda nifer dda o fynychwyr. Mae Elizabeth Woodcock wedi bod yn gweithio gyda Llio Johnson trwy ddefnyddio meddalwedd sydd gan y Brifysgol i geisio adnabod y prif bwyntiau oedd yn codi ar draws yr 18 gweithdy.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r adroddiad a'r tri opsiwn oedd yn cael eu cynnig fel amcanion llesiant posibl sef:

<u>Opsiwn 1</u>

1. Cefnogi, datblygu a chynnal ysbryd cymunedol iach
2. Gwarchod yr amgylchedd naturiol
3. Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
4. Hybu'r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hirdymor
5. Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau
6. Creu'r amgylchedd ar gyfer denu swyddi o safon uchel
7. Sicrhau cartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl leol
8. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo

<u>Opsiwn 2</u>

1. Cymunedau cryf a llewyrchus sy'n cydweithio ac yn creu atebion lleol.
    - Cefnogi, datblygu a chynnal ysbryd cymunedol iach
    - Gwarchod yr amgylchedd naturiol
    - Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
    - Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

2. Trigolion sydd yn iach a gydag ansawdd bywyd da
    - Hybu defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor
    - Creu'r amgylchedd ar gyfer denu swyddi o safon uchel
    - Sicrhau cartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl leol
    - Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo

Opsiwn 3

1. Cymunedau cryf a llewyrchus sydd yn cydweithio ac yn creu atebion lleol.
    - Cefnogi, datblygu a chynnal ysbryd cymunedol iach
    - Gwarchod yr amgylchedd naturiol
    - Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
    - Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

2. Trigolion sydd yn iach a gydag ansawdd bywyd da
    - Hybu defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor
    - Creu'r amgylchedd ar gyfer denu swyddi o safon uchel
    - Sicrhau cartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl leol
    - Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo

3. Cyrff Cyhoeddus sydd yn gweithio gyda chymunedau yn fwy effeithiol
    - Datblygu dealltwriaeth fanwl o broffil ardaloedd i'r dyfodol a chydweithio gyda chymunedau ar hyn.
    - Paratoi gwybodaeth glir ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau
    - Bod yn gyflogwyr sydd yn sicrhau gweithlu iach a gydag ansawdd bywyd iach.

Cytunwyd fod angen mwy o wybodaeth ar beth fyddai'r gweithredu yn erbyn y negeseuon cyn dod i benderfyniad ar yr amcanion. Roedd consyrn nad oedd dealltwriaeth glir beth fyddai'r BGC yn ei gyflawni yn benodol ym mhob maes. Roedd yn bwysig fod y Bwrdd yn glir mai'r amcan yw gwella lleisant trigolion Gwynedd a Môn a bod angen galluogi cymunedau i gyflawni dros eu hunain.

Esboniwyd fod cyfnod o ymgynghori statuol o 3 mis a bydd cyfle yn ystod yr amser yma i roi mwy o fanylder yn y cynllun os mai dyna fyddai dymuniad yr aelodau.

Cytunwyd derbyn adroddiad mwy manwl yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r BGC.

7. Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru - Bwrdd Partneriaethol Rhan 9

Rhannwyd y Cynllun Rhanbarthol drafft er gwybodaeth..

8. Gohebiaeth

Rhannwyd yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth:

- Cyhoeddi adroddiad Llesiant Cymru 2016/2017
- Llythyr gan Weinidogion Cymru - cysylltu pobl yn effeithiol a gofal a chymorth llesiant
- Llythyr a throsolwg gan Gomisiynydd Pobl Hyn

9. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall.